

Rhyddid i fyw

Y Beibl – Cariad Duw sy'n ein rhyddhau

Gellir addasu'r gweithgareddau hyn i weddu'ch sefyllfa leol. Maent wedi eu cynllunio i'w defnyddio yn ystod gwasanaeth i bob oed, gyda gweithgareddau i'w defnyddio ar gychwyn, canol, a diwedd y gwasanaeth. Gallwch eu defnyddio law yn llaw â'r bregeth, gan ei addasu fel ag sy'n briodol. Ceir syniadau eraill ar gyfer gweithgareddau yn y pecyn *Bod yn Rhydd*, sy'n cynnwys deunyddiau ar gyfer plant oed cynradd ac uwchradd.

Gweithgaredd 1: Wedi fy nghyffroi am y newyddion da

Gweithgaredd i dorri'r iâ ar gyfer pob oed, i'w ddefnyddio ar gychwyn y gwasanaeth.

Darlleniad

Luc 4.18–19 mewn ieithoedd eraill, i rwystro'r gynulleidfa rhag deall y 'newyddion da' sydd yn yr adnodau hyn.

UN AI:

Gwahoddwch nifer o bobl sy'n gallu siarad ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg yn rhugl i ddarllen Luc 4.18–19 o'u Beiblau hwy, neu gwahoddwch bobl sy'n medru siarad Ffrangeg, Sbaeneg neu Tsieinëeg i ddarllen y fersiynau isod. Wedi i'r adnodau gael eu darllen yn yr ieithoedd, holwch eich cynulleidfa os ydynt wedi eu cyffroi am y neges y maent wedi ei chlywed, a gofynnwch a wnaeth clywed y 'newyddion da' newid eu bywydau. Os oes gennych daflunydd gallwch roi geiriau'r adnodau mewn gwahanol ieithoedd ar y sgrîn.

NEU:

Rhowch daflenni gyda'r adnodau arnynt i aelodau o'r gynulleidfa eu darllen mewn ieithoedd eraill. Holwch y bobl os ydynt yn gwybod beth yw ystyr yr adnodau, a gofynnwch iddynt a ydynt wedi eu cyffroi gan yr hyn y maent newydd ei ddarllen. Gellir gofyn i blant: 'Ydi hyn wedi dy gyffroi di?' 'Wyt ti'n colli diddordeb/wedi drysu?' ac yn y blaen.

YNA:

Darllenwch Luc 4.18-19 yn Gymraeg. Dywedwch ychydig am y fraint sydd gennym o glywed a darllen y newyddion da yn ein hiaith ein hunain. Adroddwch ychydig o hanes William Morgan, a gyhoeddodd y cyfieithiad cyflawn cyntaf o'r Beibl yn Gymraeg ym 1588, dros bedwar can mlynedd yn ôl, gan alluogi'r Cymry i glywed neges y Beibl am y tro cyntaf.

Ceir mwy o gyfieithiadau o'r Beibl ar y linc isod:

everytongue.com/john/index.htm

Sbaeneg (Rainer-Valera, 1995)

«El Espíritu del Señor está sobre mi, por cuanto me ha ungido para dar buenas nuevas a los pobres; me ha enviado a sanar a los quebrantados de corazón, a pregonar libertad a los cautivos

y vista a los ciegos, a poner en libertad a los oprimidos y a predicar el año agradable del Señor».

Ffrangeg (Louis Segond):

'L'Esprit du Seigneur est sur moi, Parce qu'il m'a oint pour annoncer une bonne nouvelle aux

pauvres; Il m'a envoyé pour guérir ceux qui ont le coeur brisé, Pour proclamer aux captifs la délivrance, Et aux aveugles le recouvrement de la vue, Pour renvoyer libres les opprimés, Pour publier une année de grâce du Seigneur.'

Saesneg (Contemporary English Version)

'The Lord's Spirit has come to me, because he has chosen me to tell the good news to the poor. The Lord has sent me to announce freedom for prisoners, to give sight to the blind, to free everyone who suffers, and to say, "This is the year the Lord has chosen."

Tsieinëeg Mandarin

主的灵在我身上，
因为他用膏膏我，
叫我传福音给贫穷的人；
差遣我报告：
被掳的得释放，
瞎眼的得看见，
叫那受压制的得自由，
报告神悦纳人的禧年。

Cymraeg (Y Beibl Cymraeg Newydd)

'Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio i bregethu'r newydd da i dlodion. Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.'

Gweithgaredd 2: Gwrandewch a gwnewch

Gosodwch siart droi yn y blaen lle y gall pawb ei weld. Gofynnwch am wirfoddolwr i dynnu llun. Dewiswch rywun arall i gyfarwyddo.

Pwrpas y gweithgaredd yw i'r arlunydd ddilyn yr union gyfarwyddiadau a roir iddo gan y cyfarwyddwr. Dangoswch ddarn o bapur gydag enw gwrthrych arno (e.e. tractor, coeden Nadolig, cloch) i'r un sy'n cyfarwyddo. Rhaid

iddo/i droi ei gefn/ei chefn at y siart droi/bwrdd gwyn a galw cyfarwyddiadau i'r arluniwr dynnu'r llun (e.e. 'llinell syth i lawr', 'hanner cylch i'r chwith' a.y.b.) heb roi cyfarwyddiadau gyda'i ddwylo nac ychwaith ddweud beth yw'r gwrthrych. Anogwch y gynulleidfa i gymryd rhan!

Diben y gweithgaredd yw dangos mor anodd yw gwneud rhywbeth pan nad ydym yn deall yn iawn beth yr ydym i fod i wneud! Ond gan fod gennym ni eiriau lesu yn ein hiaith ein hunain-fel y geiriau hynny a ddywedodd yn Nasareth-rydym yn rhydd i ddeall beth oedd hanfod ei neges:


- Dweud y newyddion da wrth bobl dlawd
- Cyhoeddi rhyddid i garcharorion
- Rhoi eu golwg i'r dall
- Rhyddhau pawb sy'n dioddef

Mae'n neges o ryddid i ni ac i'n byd.

Gweithgaredd 3: Yn rhydd i ddarganfod

Dewiswch wirfoddolwr ifanc, rhowch fwgwd dros ei lygaid a chlymu ei ddwylo o'i flaen (ddim yn rhy dynn!). Dywedwch wrtho fod bar o siocled masnach deg wedi ei arddangos yn rhywle amlwg yn yr eglwys, a bod rhaid iddo wrando ar gyfarwyddiadau oddi wrth y gynulleidfa i chwilio am y siocled. Gellir ailadrodd hyn nifer o weithiau i weld pa un o'r plant sydd orau ar hel siocled!

Diben y gêm yw dangos i ni sut yr ydym wedi'n harafu a'n hatal os na allwn weld yn glir a symud yn rhydd. Heb y Beibl yn ein hiaith, fedrwn ni ddim gwybod sut mae Duw am ein rhyddhau ni a'n cymunedau i fod y bobl mae eisiau i ni fod. Mae'r rheiny sy'n cyfieithu'r Beibl, ac yn chwilio am ffyrdd i helpu pobl i'w ddeall, yn symud y rhwystrau hynny i'r rhyddid sydd gan Dduw ar ein cyfer.



Gweithgaredd 4: Stori Duw a'n stori ni

Awgrymir defnyddio'r weithgaredd hon fel yr olaf yn y gwasanaeth. Tanlinella rym Gair ysgrifenedig Duw i'n rhyddhau ni.

UN AI:

Rhannwch daflenni nodyn 'post i' (bydd lliwiau gwahanol yn creu arddangosfa liwgar) a gwahoddwch bobl i feddwl am ffyrdd y daeth y Beibl â rhyddid iddynt hwy. Yna anogwch hwy i ysgrifennu pennawd byr ar y 'post i', e.e. Rwy'n rhydd o ofn, Wedi derbyn maddeuant, Gwybod ei fod yn fy ngharu, Dewrder i wynebu'r dyfodol, Tawelwch meddwl, Yn rhydd o gaethiwed, ayyb.

Yn ystod emyn/cân briodol gwahoddwch y gynulleidfa i ddod ymlaen a rhoi'r nodiadau post i ar fwrdd mawr ar flaen yr eglwys, sydd a'r pennawd Hawl i fyw, neu, Cariad Duw yn rhyddhau pobl! Arno.

Nodyn: Gallwch wneud hyn wrth i bobl adael y gwasanaeth. Os felly, rhowch fwrdd yn erbyn y wal wrth y brif allanfa. Gellir dangos y bwrdd y Sul canlynol, gyda gweddïau bryd hynny o ddiolch am rym Gair ysgrifenedig Duw.

NEU:

Gwahoddwch aelodau o'r gynulleidfa i rannu sut mae'r Beibl wedi eu rhyddhau hwy. Dylai'r hanesion yma fod yn fyr (tua 1–2 funud). Efallai dylech drefnu dwy stori o flaen llaw er mwyn annog eraill i gymryd rhan.

Clo

Rhowch weddïau o ddiolch am rym Gair ysgrifenedig Duw.

Lluniwyd y gweithgareddau i bob oed hyn gan y Parch. Ian Coffey. Mae Ian yn Gyfarwyddwr Hyfforddiant Arweinyddiaeth yng Ngholeg Moorlands, Dorset. Yn weinidog ordeiniedig gyda'r Bedyddwyr, bu'n arweinydd ar eglwysi mewn maestrefi, canol dinasoedd a thramor. Mae'n awdur ar 14 o lyfrau ac yn ymgynghorwr ar gyhoeddi i wasg IVP. Mae'n briod â Ruth, ac mae ganddynt bedwar mab hŷn a dwy wyres.

